# SUT I DDEWIS
# CYFLENWR BAND EANG CYFLYM IAWN

**Mae’r Rhyngrwyd wedi gweddnewid busnes - ond a ydych yn gwerthu ar lein, neu dim ond yn anfon e-byst ac yn pori’r we, mae’n bosibl y gallai eich dewis o Ddarparydd Gwasanaeth Rhyngrwyd (ISP) effeithio ar y buddion i’ch busnes. Eich ISP yw’r cwmni sy’n darparu’r ddolen i’ch cysylltu â’r Rhyngrwyd. Fodd bynnag, mae’n gallu bod yn boen os nad yw eich ISP yn gweithio fel y dylai, felly mae’n bwysig gwneud y dewis cywir. Mae ISPau yn gwahaniaethu’n sylweddol o ran ansawdd gwasanaeth o ran cyflymder, dibynadwyedd a chefnogaeth cwsmer, felly mae’n werth treulio ychydig o amser i wneud ychydig o waith cartref yn gyntaf.**

**Am beth ddylech chi edrych amdano mewn ISP? Efallai y dylech ystyried y ffactorau canlynol:**

## BOD YN FUSNES CYFLYM IAWN

Mae’n eithaf cyffredin i fasnachwyr unigol neu fusnesau micro ddefnyddio band eang presennol eu cartref os ydyn nhw’n gweithio o gartref. Fodd bynnag, bydd y cysylltiad yn aml yn cael trafferth, er enghraifft, ydych chi erioed wedi bod yn defnyddio’r rhyngrwyd ac yn sydyn mae’n dechrau mynd yn eithriadol o araf? Mae hynny oherwydd bod gweddill y stryd yn defnyddio’r cysylltiad. Efallai bydd newid i fand eang busnes yn costio ychydig yn fwy ond byddwch yn derbyn cysylltiad gwell, mwy dibynadwy, yn ogystal â chael gwasanaeth a chefnogaeth dechnegol gwell ac chewch ateb yn llawer cyflymach i unrhyw broblemau a allai godi. Yn aml mae cwsmeriaid busnes yn cael lefelau gwell/uwch o ddiogeledd.

## PRIS

Fel gyda’r rhan fwyaf o bethau, fe gewch yr hyn rydych yn ei dalu amdano, ac, o ran darpariaeth gwasanaeth a chysylltedd uwch, mae'n well ystyried yr hyn sydd gan nifer o gyflenwyr i’w gynnig a chymharu'r cysylltiad, gwasanaeth, cefnogaeth ayb.

## CYFLYMDER

Mae nifer o ISPau’n rhoi cyhoeddusrwydd mawr i’r ‘lled band’ maen nhw’n darparu – yn ei hanfod, cyflymder eich cysylltiad â’r Rhyngrwyd yw hynny. Mae’n cael ei fesur mewn megabits fesul eiliad, Mbps yn fyr. Wrth ymchwilio i ddarparydd, mae’n werth ystyried nid yn unig gyflymder llawr lwytho ond y cyflymder llwytho i fyny hefyd. Mae cyflenwyr trigiannol yn hysbysebu’u cyflymder llawr lwytho ond bydd yn rhaid i fusnesau ystyried y cyflymder llwytho fyny sydd ar gael er mwyn sicrhau y gellir rhannu ffeiliau, cydweithio ac adnoddau eraill yn gyflym ac yn rhwydd. Mae lled band uwch yn golygu y gellir anfon a derbyn ffeiliau, tudalennau’r we a llwytho’n gyflymach, ac yn y blaen. Os mai’r pethau pwysicaf i chi yw anfon e-byst a darllen tudalennau’r we, nid oes raid poeni cymaint erbyn hyn; bydd unrhyw ISP yn darparu diogon o led band ar gyfer hynny. Fodd bynnag, os ydych yn defnyddio fideo ar lein neu’n anfon a derbyn ffeiliau mawr neu’n rhedeg rhaglenni sy’n bwyta data mae’n gallu bod yn gryn broblem.

Mae'r union gyflymder y byddwch yn ei gael yn dibynnu ar nifer o ffactorau ychwanegol megis pellter eich llinell ffôn o'r gyfnewidfa ffôn neu o gabinet gwyrdd ochr y ffordd; ansawdd y llinell, yr offer a'r gwifrau mewnol yn eich adeilad. Mae Cyflymu Cymru'n i Fusnesau'n gweithio'n galed i sicrhau fod pawb yn cael cysylltiad mor gyflym â phosibl o ystyried eu lleoliad daearyddol.

### DIOGELEDD

A yw eich ISP yn hidlo spam ac e-byst eraill annymunol? A alwch chi gael unrhyw reolaeth dros sut y mae'ch cysylltiad Rhyngrwyd yn cael ei ddefnyddio, er enghraifft, i atal staff rhag edrych ar wefannau amhriodol?

### LEFELAU GWASANAETH

Mae pob ISP yn cael problemau'n achlysurol sy'n atal eu gwasanaeth dros dro. Dylech ofyn i'ch darpar ddarparydd pa mor aml y mae hynny'n digwydd iddyn nhw trwy holi ynghylch eu 'amser i fyny' – canran yr amser mae'r gwasanaeth yn gweithio'n iawn. Dylai fod o gwmpas 99.9%.

### CEFNOGAETH

Allwch chi gysylltu â rhywun ar ôl oriau gwaith, neu ar y penwythnos? Pa mor hir y mae cwsmeriaid yn aros fel arfer wrth ddisgwyl i alwad gael ei ateb? Ydych chi'n gallu cael atebion i gwestiynau technegol ac ynghylch eich cyfrif ar lein hefyd?

### DEWIS DARPARYDD GWASANAETH Y RHYNGRWYD

Mae'n hanfodol sefydlu'n glir sut mae'ch busnes yn defnyddio'r Rhyngrwyd heddiw a sut rydych yn debyg o'i ddefnyddio yn y dyfodol agos. Rhag cael eich boddi gan fanylion, gallai fod yn syniad da penderfynu beth yw eich tri neu bedwar prif flaenoriaeth. Byddai hynny'n eich helpu i gael rhestr fer o ISPau sy'n cyfarfod â'ch anghenion ac yna gallwch eu hidlo ymhellach gan ddefnyddio ffactorau llai pwysig.

## AWGRYMIADAU ARDDERCHOG

***Mae'n debyg y bydd eich defnydd o'r Rhyngrwyd a gofynion lled band yn cynyddu***

Sicrhewch fod unrhyw gytundeb gyda'ch ISP yn gallu cyfarfod â'ch anghenion chi nawr AC yn y dyfodol.

***Cymerwch ffigyrau perfformiad gyda phinsied o halen***

Cofiwch mai'r senarios achos gorau yw'r ffigyrau sy'n cael eu dyfynnu gan Ddarparwyr fel arfer, felly peidiwch â bod ofn gofyn pa led band y mae cwsmeriaid yn ei gael ar gyfartaledd mewn gwirionedd. Cofiwch fod y math o cebl sy'n cysylltu'ch eiddo h.y. copr, yn ogystal â'ch pellter o'r gyfnewidfa yn gallu effeithio r gyflymder hefyd.

***Peidiwch â dewis ISP ar bris yn unig***

Ystyriwch beth allai'ch busnes ei golli pe byddai ISP rhad, ond o ansawdd isel, yn eich gadael heb gysylltiad am 24 awr.

## AWGRYMIADAU ARDDERCHOG

***Gwyliwch am gyfyngderau ar ddefnydd***

Mae rhai Darparwyr yn gallu gosod cyfyngiadau ar faint o ddata y gallwch ei lwytho i fyny neu'i lawr lwytho mewn cyfnod penodol, felly sicrhewch fod y rhain yn sylweddol uwch na faint o ddefnydd rydych yn ei ddisgwyl os ydych yn bwriadu symud at ISP arall.

***Peidiwch â rhagdybio mai'r brandiau mawr yw'r gorau***

Nid y mawr o angenrheidrwydd yw'r gorau, yn enwedig os yw Darparydd llai (ac efallai'n fwy lleol) yn gallu cynnig gwasanaeth mwy personol ac ymatebol.

***Adolygiadau annibynnol***

Cewch ragor o wybodaeth o wefannau megis uSwitch – www.uswitch.com/broadband
Moneysupermarket – www.moneysupermarket.com/broadband/business-broadband
a Thinkbroadband – www.thinkbroadband.com

## Y CAMAU NESAF

1. **Cofrestrwch i fod yn bresennol mewn Gweithdy Datblygu Busnes wedi'i ariannu'n llawn.**
   **http://business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy/digwyddiadau**

2. **Gwnewch apwyntiad i weld Ymgynghorydd Buses a fydd yn eich cynorthwyo i greu cynllun gweithredu personol i dyfu'ch busnes.**
   **http://business.wales.gov.uk/cy/cysylltwch-a-ni**

## Am fwy o gyngor am Gyflymu Busnesau:

Gweld sut mae busnesau eraill yng Nghymru wedi ymelwa o Fand Eang Cyflym Iawn:
**www.business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy/straeon-llwyddiant-cyflym**

---

Canfod faint allai'ch busnes chi arbed gyda'r cyfrifiannell arbedion:
**www.business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy/cyfrifwr-arbedion**

---

Mae Canllawiau Busnes eraill a allai fod o ddiddordeb i chi yn cynnwys:
**www.business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy/canllawiau-busnes-cyflym-iawn**

---

I gael yr wybodaeth ddiweddaraf yn fisol ar ddatblygiad busnes, newyddion technoleg a digwyddiadau tanysgrifiwch i Daflen Newyddion Busnes Cymru:
**https://public.govdelivery.com/accounts/UKWALES_CY/subscriber/new**

---

Am ragor o wybodaeth ffoniwch 03000 6 03000 neu ymwelwch â:
**www.business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy**

Busnes Cymru Business Wales

UNDEB EWROPEAIDD EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru Welsh Government
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund

Llywodraeth Cymru
Welsh Government